



30.03.23

Bethan Lloyd

Cyswllt Contact

Ffôn Phone

0330 5880 369

---

## Erthygl i'r Wasg Press Release

---

# Cip tu ôl i ddrysau Sain Ffagan a chyfle i gwrdd â'r tîm sy'n cynnal y Castell a'r adeiladau

Bydd cyfle i gael cip arall ar rai o gorneli cudd Amgueddfa Werin Cymru yn ail bennod y gyfres **Sain Ffagan** ar S4C nos Fercher 12 Ebrill am 8.25.

Mae Sain Ffagan yn gartref i ryw hanner cant o adeiladau hanesyddol mewn deunaw erw o erddi godidog. Un o'r rhai mwyaf eiconig yw'r Castell. Un o'r tîm sy'n gofalu am y Castell yw Colin Murphy, sydd wedi bod yn dod i Sain Ffagan ers oedd e'n blentyn.

"Doedden i ddim yn meddwl yr adeg yna bydden i'n gweithio yma ond dw i'n caru bob dydd a bod yn onest. Dw i'n dwlu bod yma," meddai Colin, sydd wrth ei fodd yn siarad efo'r cyhoedd a rhannu gwybodaeth efo nhw am hanesion unigryw'r safle.

Mae'r amgueddfa yn denu mwy na 500,000 o ymwelwyr bob blwyddyn, a llawer iawn ohonyn nhw'n dod i'r Castell. "Y nifer fwya o bobl gwrddes i mewn un diwrnod oedd 4,500!" meddai Colin.

Yr adeilad diweddaraf i gael ei godi yn Sain Ffagan yw Gwesty'r Vulcan, hen dafarn adnabyddus o ardal ddiwydiannol yng Nghaerdydd. Cafodd ei chofrestru fel tafarn yn 1853 a'i dymchwel yn 2012.

Fe ddechreuodd y gwaith o ail-adeiladu'r dafarn yn Sain Ffagan yn 2019 ac mae croen allanol yr adeilad bron yn gyflawn. Mae Dafydd Wiliam, y Prif Guradur Adeiladau, yn gobeithio tynnu'r peint cyntaf adeg Gwanwyn 2024.

Yn y bennod hon, cawn gwrdd â rhai o'r adeiladwyr sy'n gyfrifol am atgyfodi'r dafarn. Mae Dafydd Wiliam yn pwysleisio bod angen iddyn nhw addasu a dysgu sgiliau newydd ar gyfer pob adeilad.

"Mae'r gwaith yn ddiddorol ac yn wahanol, dw i rili yn enjoio fe," meddai'r saer maen Mathew Roberts.

Ond weithiau, "nid dim ond yr adeiladau sy'n bwysig, ond y pethau tu mewn hefyd" – dyna farn y gwehydd Dewi Jones sy'n gweithio ym Melin Wlân Esgair Moel, un o'r adeiladau cyntaf i gael eu codi yn Sain Ffagan 'nôl yn 1952. Dyma le mae'r peiriant nyddu gwlan, y *spinning jack*, a gafodd ei wneud tua 1830. Credir mai dyma'r unig un o'r cyfnod sydd yn dal i weithio ac sy'n cael ei ddefnyddio.



“Mae’n waith cyhyrog ond yn ymarfer corff da. Mae’n bleser gweithio efo’r hen beiriannau,” meddai Dewi.

Er mai amgueddfa awyr agored ydy Sain Ffagan, ar lawr top yr adeilad mae tair oriel sy’n llawn dogfennau, delweddau, gwrthrychau, archif sain ac arddangosfeydd sy’n newid yn gyson. Yn y bennod hon, mae Elen Philips, Prif Guradur Hanes Cyfoes a Chymdeithasol, yn prysur roi arddangosfa at ei gilydd sy’n dathlu amrywiaeth Y Wal Goch, sef y ffans ffyddlon sy’n dilyn tîmau pêl-droed Cymru.

Ar ôl apêl ar y cyfryngau cymdeithasol, mae cannoedd o luniau wedi dod i’r fei ar gyfer yr arddangosfa, gan gynnwys nifer o wrthrychau eraill.

Er bod y gwrthrychau a’r adeiladau yn gallu adrodd hanes Cymru, mae’r dasg o gasglu tystiolaeth ar lafar hefyd yn hynod bwysig.

Mae Ceri Thompson, Curadur (Glo) Amgueddfa Cymru, wedi bod yn teithio’r wlad yn casglu archif sain ers 18 mlynedd. Y tro hwn, mae’n ymweld â Gareth Jones yng Ngerddi Coffa Aberfan er mwyn casglu tystiolaeth ar gyfer arddangosfa i goffáu’r drychineb yn 1966.

Roedd Gareth yn chwech oed pan lithrodd tomen lo i lawr llethrau’r bryniau a chladdu’r ysgol gynradd lle’r oedd yn ddisgybl. Cafodd 144 o bobl eu lladd gan gynnwys 116 o blant. Dim ond llond llaw o blant oedd wedi goroesi’r trychineb a Gareth yn eu plith. Roedd y dosbarth lle’r oedd e pan ddigwyddodd y drychineb wedi osgoi’r dinistr gwaethaf ac fe lwyddodd i ddianc drwy ffenestr. Mae’n sôn am ei atgofion o’r diwrnod hwnnw a’r graith mae wedi gadael ar ei ôl.

Mae casglu tystiolaeth ar lafar yn “ychwanegu at y stori” meddai Ceri, am ei bod yn galluogi i bobl glywed y gwahanol acenion a’r emosiwn yn eu lleisiau.

“Dwi’n teimlo braint cael y cysylltiad yma efo pobl,” meddai.

**Sain Ffagan, S4C**

**Dydd Mercher, 12 Ebrill 8.25**

**Isdeitlau Saesneg ar gael**

**Ar alw: S4C Clic, iPlayer a platfformau eraill**

**Cynhyrchaid Boom Cymru i S4C**



30.03.23

Bethan Lloyd  
Cyswllt Contact  
Ffôn Phone  
0330 5880 369

---

## Erthygl i'r Wasg Press Release

---

# A behind-the-scenes tour of St Fagans – and a chance to meet the guardians of the Castle and buildings

In the second episode of the S4C series **Sain Ffagan** we're taken on a behind-the-scenes tour of the National History Museum on 12 April at 8.25.

St Fagans is home to around fifty historic buildings in eighteen acres of magnificent gardens. One of the most iconic buildings is the Castle and Colin Murphy is one of the team that cares for it, who has been coming to St Fagans since he was a child.

"I never thought at the time I would be working here but I enjoy every day. I love being here," says Colin, whose passion is talking to the visitors and sharing the museum's unique history with them.

The museum attracts more than 500,000 visitors every year, many of whom visit the Castle. "The most people I met in one day was 4,500!" Colin recalls.

The latest building to be painstakingly rebuilt brick by brick in St Fagans is the Vulcan Hotel, a well-known pub from a former industrial area in Cardiff. It was registered as a public house in 1853 and demolished in 2012.

The task of rebuilding the pub in St Fagans began in 2019 and the outer shell of the building is almost complete. Dafydd Wiliam, Principal Curator of Historic Buildings, hopes to pull the first pint in Spring 2024.

In this episode, we meet some of the skilled team of builders who are rebuilding the pub. For each new building they need to adapt and learn new skills, says Dafydd Wiliam.

"The work is interesting and different, I really enjoy it," says stonemason Mathew Roberts.

However, it's not just the buildings that are important but the things inside them too, according to the weaver Dewi Jones who works at the Esgair Moel Woollen Mill. It was one of the first buildings to be erected in St Fagans in 1952 and houses the Spinning Jack, a handloom that was made around 1830. It is believed to be the only one of its kind that is still working and in use.



"It's very physical work but good exercise. It's a pleasure to work with the old machines," says Dewi.

Although St Fagans is an open-air museum, on the top floor of the building there are three galleries housing documents, images, objects, a sound archive and constantly changing exhibitions. In this episode, Elen Philips, Principal Curator Contemporary and Community History, is busy putting together an exhibition that celebrates the diversity of Y Wal Goch [the Red Wall], the loyal supporters of Wales' football teams.

After an appeal on social media, the exhibition has received hundreds of photos, including a number of other memorabilia.

Although the objects and buildings play an important part in telling the history of Wales, the task of gathering oral testimonies is also a vital element.

Ceri Thompson, Curator (Coal) at Museum Wales, has been traveling the country for the past 18 years recording oral testimonies. In this episode, he visits Gareth Jones at Aberfan Memorial Gardens to record his experiences for an exhibition commemorating the disaster in 1966.

Gareth was six years old when a colliery spoil tip slid down the hillside, engulfing the primary school where he was a pupil. 144 people were killed in the disaster, including 116 children. Gareth was one of only a handful of children who survived the tragedy. The classroom where he was at the time of the disaster escaped the worst of the destruction and he managed to escape through a broken window. Gareth recalls the events of that day and the scar it has left behind.

Ceri says the oral testimonies "add to the story" because it enables people to hear the different accents and the emotion in their voices.

"I feel very privileged to have this connection with people," he says.

**Sain Ffagan, S4C**

**Wednesday, 12 April 8.25**

**English subtitles available**

**On demand: S4C Clic, iPlayer and other platforms**

**A Boom Cymru production for S4C**

